

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 7fed 2015 yn Festri Glanrafon. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gethin Morris, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Alwyn Jones, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Iolo Evans, Gwenda Evans a Tina Davies.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Gwenda Morris ei diddordeb yn y cais cynllunio ger Cae Wlff, Llandderfel.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Diweddarau'r polisi yswiriant.

Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r cwmni yswiriant i ychwanegu cofeb rhyfel Llandderfel a wal mynwent Llanfor i'r polisi.

Archwilio'r cerrig beddi.

Adroddodd y clerc eu bod wedi archwilio'r mynwentydd a chodwyd y materion canlynol:-

i) Cerrig Beddi - archwiliwyd y cerrig ym mynwentydd Llandderfel, Llanfor a Frongoch gan ddymchwel a marcio'r cerrig a oedd angen sylw. Gosodwyd hysbyseb yn Y Cyfnod i dynnu sylw'r cyhoedd i'r archwiliad gan roi tan ddiwedd mis Medi i'r teuluoedd gywiro unrhyw ddiffygion. Cytunwyd y byddai'r cynghorwyr yn ail archwilio'r cerrig ym mis Medi.

ii) Mynwent Llanfor - roedd angen llenwi ambell i dwll cas yn y fynwent a gofynnwyd i'r clerc ofyn i Gwmni Ciltalgarth ymgymryd â'r gwaith cyn gynted a phosib. Roedd rhai o lechi to'r Lych Gate yn rhydd felly cytunwyd i dynnu sylw'r perchnogion newydd i'r difrod. Cytunwyd bod angen i'r cynghorwyr archwilio'r coed o gwmpas y fynwent yn ystod yr ymweliad ym mis Medi i asesu pa waith oedd ei angen.

iii) Mynwent Llandderfel - yn ystod yr ymweliad cafwyd sgwrs ddiddorol gyda pherchennog Penllan. Cafwyd cadarnhad y byddai'n torri'r coed a oedd yn gordyfu dros y ffordd yn ystod y haf. Rhoddodd ganiatâd i'r Cyngor wneud gwelliannau i'r ffordd a chytunodd Maldwyn Jones ymgymryd â'r gwaith a hefyd i glirio'r pentwr pridd ger mynedfa'r fynwent.

Cyfarfod Her Gwynedd – Bala 10/6/15.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd gan y clerc a Eilir Rowlands a fynychodd y cyfarfod ar ran y Cyngor.

Rheolydd Pensiynau.

Adroddodd y clerc ei bod wedi cofrestru'r Cyngor ond annhebygol iawn y bydd rhaid i'r Cyngor weithredu unrhyw gynllun pensiwn ar hyn o bryd.

A494 Cefnddwysarn/Sarnau.

Cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog Edwina Hart bod sylwadau'r Cyngor am ddiogelwch gyrwyr ar y A494 wedi cael eu nodi a cawn eu hystyried wrth iddynt adolygu'r cyfyngiadau cyflymder yn yr haf.

Gwartheg yn croesi'r A494 ger Rhiwlas.

Derbyniwyd copi o ymateb y Gweinidog Edwina Hart i'r cwynion a anfonwyd gan y Cyngor Tref ynglŷn â'r oedi a diogelwch y gyrwyr ar y A494 wrth i'r ystad goesi eu gwartheg godro.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

- i) Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Gwybodaeth am eu hymgyngoriad Haf 2015. Cytunodd y clerc i gwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor.
- ii) Ail strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd - llythyr yn ein cynghori o'i bwriad i ail strwythuro'r gwasanaeth presennol. Derbyniwyd hefyd gopi er gwybodaeth o ymateb Cyngor Tref Y Bala i lythyr Cyngor Gwynedd. Cytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr yn mynegi siom y Cyngor o fwriad Cyngor Gwynedd i ddod a'r gwasanaeth cofrestru i ben yn Y Bala ac i gefnogi cynnig y Cyngor Tref i symud y gwasanaeth presennol i Ganolfan yr Henblas.

b) Amrywiol

- i) Parc Cenedlaethol – Cais am gymorth i recriwtio ar gyfer eu 'Rhaglen Mentora Aelodau'.
- ii) Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn – Gwahoddiad i agoriad swyddogol Bloc Llety Cefn Gwyn, 10/7/15.
- iii) Ombwdsmon – Copi o'i Adroddiad Blynyddol 2014/15.
- iv) Cymorth Cynllunio Cymru – Gwahoddiad i weithdy hyfforddiant 3/8/15.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C15/0580/04/LL – Ymestyn ty presennol. Caerau Isaf, Sarnau.

NP5/63/249A – Gosod tanc olew 1200 litr. Fferm Ty'n y Bont, Frongoch.

C15/0668/04/TC – Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer codi un ty. Cae ger Cae Wlff, Llandderfel (Gadawodd Gwenda Morris yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

C15/0580/04/LL – ymestyn ty presennol drwy addasu'r adeilad allanol ynghyd ac ymestyn y cwrtil preswyl. Caerau Isaf, Sarnau.

Materion Ariannol.

Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Cyflog y clerc (Ebr-Meh)
- ii) Partneriaeth Penllyn
- iii) Y Cyfnod (hysbysebion archwilio'r mynwentydd)
- iv) Broker Network (ychwanegiadau i'r polisi yswiriant)

Unrhyw Fater Arall

Ystâd Tan y Foel, Llanfor.

Derbyniwyd cwynion am gyflwr un o'r tai ar y stad ac roedd angen torri'r gwrych ar y llwybr ger yr afon. Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion ymlaen i Gartrefi Cymunedol Gwynedd a oedd yn gyfrifol am y stad.

Tal meysydd parcio tref Y Bala.

Trafodwyd y newidiadau i'r fffioedd parcio ym meysydd parcio'r dre. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi eu pryderon y bydd ymwelwyr ddim yn ymweld ar dre oherwydd y fffioedd parcio uchel.

Gasgliadau ailgylchu ym mhentref Llandderfel.

Roedd y casgliadau ailgylchu i gyfeiriad Henblas a Cae Pant yn anghyson iawn felly gofynnwyd i'r clerc basio'r mater ymlaen i'r adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

Ffordd y Berwyn.

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld be oedd y diweddara ynglŷn â'r graig a oedd yn dod allan i'r ffordd ger Fedw Fronllan gan fod hi'n amlwg bod cerbydau wedi taro yn ei herbyn eto.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Medi'r 1af yn Festri Glanrafon am 7.30 y.h.